Cofnodion – Nos Fawrth 15fed o Orffennaf, 2025 yn Neuadd Caerwedros / Zoom

Minutes - Tuesday the 15th of July, 2025 at Caerwedros Hall / Zoom

**YN BRESENNOL**: Celia Richardson (Cadeirydd) Wayne Lewis, Aled Dafis, Mary Davies, Heledd Dafis, Enfys Needham Jones, Morys Ioan a'r Cynghorydd Gareth Lloyd

(7.30 y.h. – 8.45 y.h.)

**PRESENT**: Celia Richardson Chair), Wayne Lewis, Aled Dafis, Mary Davies, Heledd Dafis, Enfys Needham Jones, Morys Ioan and Councillor Gareth Lloyd

(7.30p.m. – 8.45 p.m.)

28 **Ymddiheuriadau**

Derbynniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Vaughan Jones a Clinton Jones.

28 **Apologies**

Councillors Vaughan Jones and Clinton Jones apologised as they were unable to attend the meeting.

29 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

29 **Disclosures of Personal / Prejudicial Interest**

30 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17eg o Fehefin**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17eg o Fehefin yn gofnod cywir.

30 **To confirm the minutes of the meeting held on the 17th of June**

The minutes of the meeting held on the 17th of June were confirmed as a true record.

31 **Materion yn codi**

31 **Matters arising**

32 **Adroddiad Cynghorydd Sir**

Parhau i aros am dyddiad er mwyn cwrdd ar swyddog gorfodi cynllunio. Wedi ceisio cysylltu trwy Clic a hefyd wedi siarad gyda'r Uwch Swyddogion amdano. Os na fydd diweddariad cyn hir byddaf yn cysylltu gyda'r Rheolwr Corfforaethol.

Cyfarfod Cyngor llawn Dydd Iau yma. Papurau sydd yn cael ei hystyried;

Newid i Gyfrifoldebau Cynghorwyr
Adroddiad y Prif Weithredw ar Adolygu Graddau Cyflogau

Agenda a Papurau ar gael yma;
[Cyngor Sir Ceredigion]

Un o preswylwyr Cwmtydu wedi cysylltu yn nodi ei phryderon am y nifer o faniau camper sydd yn aros dros nos yn Cwmtydu. Cyngh Lloyd i anfon yr ebost at y Clerc fel bod modd rhannu gyda'r Cyngor Sir trwy Clic.

32 **County Councillor's Report**

Still waiting for a date to meet with the Planning Enforcement Officer. I have made contact again via Clic and raised the issues with the Senior Officers. If no update is received I will contact the Corporate Manager.

Full Council meeting this Thursday. Papers being considered;

Change to Councillors' Responsibilities
Chief Executive's Report on Reviewing Salary Grades

Agenda and Papers available here;
[Cyngor Sir Ceredigion]

One of the residents in Cwmtydu has contacted to express their concerns about the number of camper vans that are staying overnight in Cwmtydu. Councillor Lloyd to send the email to the Clerk so that it can be shared with the County Council through Clic.

33 **Cyllid**

Balans Agoriadol - £13,438.18

33.01 Morys Ioan, toiledau Cwmtydu - £15.06 (wedi talu)
33.02 Zoom - £51.96 (wedi talu)
33.03 Paul Jones Mehefin - £247.70
33.04 Cyflog Clerc Gorffennaf - £179.77
33.05 HMRC Gorffennaf - £45.00
33.06 ICO – £52.00
33.07 Heledd Dafis - £60.24

Balans wrth cau - £12,853.47

34 **Ceisiadau Cynllunio**

34.01 A250446 - Neuadd Chapel House, Nanternis SA45 9RR

Dim gwrthwynebiad

35 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

35.01 Sioe Caerwedros

Cytunwyd i gyfrannu £400.00 fel a ofynnwyd er gwaethaf y cais yn erbyn y Polisi. Gan fod y sioe yn mis Awst, cytunwyd i gyfrannu ar yr achlysur hwn ond i atgoffa'r ymgeiswyr am y ffenestri y mae'r Cyngor yn eu hystyried ceisiadau.

36 **Gohebiaeth**

36.01 Adolygu trefniadau cymunedol Sir Ceredigion | Review of community arrangements of the County of Ceredigion

Yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad, bu'r Cyngor Sirol mewn cyswllt â'r Swyddog Cyntaf Corfforaethol dros Wasanaethau Democrataidd yn Gyngor Ceredigion, mae'r Clerc hefyd wedi bod mewn cyswllt â Swyddog Un Llais Cymru ar gyfer Ceredigion.

Cytunodd y Cynghorwyr i'r llythyr a ysgrifennwyd gan y Cynghorydd Heledd Dafis ar ran y Cyngor. Diolch iddi am ei waith. Chytunwyd y dylid ei anfon i'r canlynol;

Elin Jones AS a Ben Lake MP
Lowri Edwards – Cyngor Sir Ceredigion
Alun Harries – Un Llais Cymru
Cyngor Cymuned Troed yr Aur
Elen Davies – Swyddog Cyfathrebu yn y BBC.

Anfonir copïau hefyd i'r Cyngor Cymuned a Thref cyfagos – Llanarth, Llangrannog, Llanllwchaearn a Chonwy Newydd.

36.02 Adolygiad Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2025 Cyngor Sir Ceredigion

Clerc i cwbwlhau ar rhan y Cyngor Cymuned.

36.03 Llythyr Amgueddfa Ceredigion

33 **Finance**

Opening Balance - £ 13,438.18

33.01 Morys Ioan, Cwmtydu toilets - £15.06 (already paid)
33.02 Zoom - £51.96 (already paid)
33.03 Paul Jones June - £247.70
33.04 Clerk Salary July - £179.77
33.05 HMRC July - £45.00
33.06 ICO - £52.00
33.07 Heledd Dafis - £60.24

Balans wrth cau - £12,853.47

34 **Planning Applications**

34.01 A250446 - Neuadd Chapel House, Nanternis SA45 9RR

No objections

35 **Request for financial assistance**

35.01 Caerwedros Show

It was agreed to contruibute £400.00 as requested desipte the request being contrary to the Policy. As the show is in August, it was agreed to contribute on this occassion but to remind the applicants of the windows the Council looks at requests.

36 **Correspondence**

36.01 Review of community arrangements of the County of Ceredigion

Following the publication of the report the County Council has been in contact with the Corporate Lead Officer for Democratic Services in Ceredigion Councy Council, the Clerk has also been in contact with the One Voice Wales Officer for Ceredigion.

Councillors discussed and agreed to the letter written by Cllr Heledd Dafis on behalf of the Council. Thank you to Cllr Dafis for her work. It was agreed it should also be sent to the following;

Elin Jones AS and Ben Lake MP
Lowri Edwards – Ceredigion County Council
Alun Harries – One Voice Wales
Troed yrAur Community Council
Elen Davies – Press Officer at the BBC.

Copies will also be sent the the surrounding Community and Town Council – Llanarth, Llangrannog, Llanllwchaearn and New Quay.

36.02 Ceredigion County Council Review Engagement and Participation Policy 2025

Clerk to complete on behalf of the Community Council.

36.03 Ceredigion Museum letter

Nodi.
36.04 Archebwch Nawr! Gweithdy – Datgarboneiddio'r Ystad Adeiledig

Clerc wedi anfon y wybodaeth ymlaen at y Cyngh Wayne Lewis.

36.05 Cynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru 2025/27

Clerc wedi anfon y wybodaeth ymlaen at y Cyngh Celia Richardson.

Noted
36.04 Book Now! Workshop - Decarbonising the Built Estate

Clerk has sent the information to Cllr Wayne Lewis.

36.05 National Forest Landscape Scheme 2025/27

Clerk has sent the information to Cllr Celia Richardson.

37 **Materion i adrodd / digwyddiadau**

37.01 Adolygiad o Safleoedd Gwastraff Cartref

Dyddiad cau – 4th o Awst. Cytunwyd i rannu'r post mor aml ag sy'n bosibl ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.

Cafwyd trafodaethau am ddefnyddio 'Fy Nghyfrif' gan Clic lle gall trigolion gyflwyno ymholiad, cofrestru ar gyfer cylchlythyr y Cyngor a gwirio'r casgliad gwastraff nesaf. Bydd y clerc yn rhannu'r wybodaeth ar Facebook, yn e-bostio'r wybodaeth i Neuadd Talgarreg a Neuadd Caerwedros gan ofyn iddynt ei rhannu ymhlith defnyddwyr y neuaddau. Bydd y clerc hefyd yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn a oes gan nhw unrhyw fflyers hyrwyddo neu lythyrau y gallai'r Cyngor Cymuned eu cael i'w dosbarthu yn y gymuned.

37 **Matters to report / events**

37.01 Review of Household Waste Sites

Review closing date – 4th of August. It was agreed to share the post as much as possible on the Community Council's Facebook page.

Discussions were also had about the use of 'My Account' by Clic where residents can submit an enquiry, sign up to the Council newsletter and check the next waste collection. Clerk to share the information on Facebook, email the information to Talgarreg Hall and Caerwedros Hall asking them to share amongst Hall users. Clerk will also contact the County Council to ask if they have any promotional flyers or letter the Community Council could have to distribute within eh Community.

38 **Materion i'w drafod ar agenda cyfarfod nesaf**

38 **Matters to discuss on next month's agenda**

39 **Trefniadau'r Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 16eg o Fedi yn Neuadd Caerwedros / Zoom am 7.30pm.

39 **Arrangements for next meeting**

The next meeting will be held on Tuesday the 16th of September at Caerwedros Hall / Zoom at 7.30pm.